20. Coed Hambury

Landimôre, Gŵyr, Abertawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 166 yr A.O. – Y Rhondda a Merthyr Tudful; Prif fynedfa: SN883070, Canolfan y safle: SN885076
Statws	Dim
Daliadaeth	Prynwyd y warchodfa fis Mehefin 1977 drwy gyfrwng apêl a chafodd ei hailenwi gan yr Ymddiriedolaeth er mwyn cofio am y Cyrnol Jo Hambury, Cadeirydd cyntaf Ymddiriedolaeth Morgannwg. "Coed y Castell" yw enw'r coed ar fapiau A.O. 1: 25000 a mwy o hyd.
Maint	4.79 he. (11.8 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	I'r gorllewin o Gastell Weblai ar lethr serth tarren galchfaen Gogledd Gŵyr. 1.2 km i'r dwyrain o Landimôr a 1.2 km i'r gorllewin o Lanrhidian. Gellir sicrhau mynediad i'r safle yma o'r ffordd heb ei dosbarthu sy'n rhedeg rhwng Oldwalls a Llanmadog, drwy fynd dros gamfa i'r dwyrain o wal gerrig ar ochr ogleddol y ffordd. Mae cerdded am ychydig i lawr ar hyd terfyn y cae yn eich arwain i'r coed drwy giât fechan ym mhen gorllewinol y warchodfa. Mae'r gofod parcio ar ochr y ffordd yn agos at y warchodfa yn brin iawn.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau 115, 116, 119 (Suliau) o Orsaf Fysus Quadrant Abertawe i Landimôr.

Disgrifiad: Coetir hynafol ar glogwyn unig y môr.
Mae Coed Hambury yn llawn coed Derw ac Ynn, gydag isdyfiant o lwyni Cyll sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd wedi gordyfu'n arw. Mae hyn, yn ogystal â'r ffaith bod defaid wedi bod yn pori yma yn y gorffennol, wedi arwain at haenen denau o gae. Mae canopi'r coed yn fwy estynedig oherwydd y Masarn Bach, y Sycamorwydd achlysurol a rhyw faint o Lwyfain marw, neu yn marw [NVC: W8a, W8f, W10a, W10e]. Llwyni Cyll a geir yma yn bennaf, yn yr haen o brysgwydd, gyda Drain Gwynion, Ysgaw (6-7) a Chelyn yma ac acw. Ymhlith y planhigion coetir eraill a welir yma mae Eiddew, Gwyddfid (6-9), Mieri, Rhosod a Drain Duon. Yn ystod y gwanwyn, mae'r cae yn garped o Arlleg Gwyllt (4-6) a Chlychau'r Gog (4-6). Ceir llu o epiffytau yma, gyda rhedyn, mwsoglau a chennau i gyd wedi'u cynrychioli'n dda.

Mae adar y coetir, fel Titw'r Wern, Telor y Cnau a'r Dringwr Bach, wedi'u cofnodi'n aml yma, a cheir golygfeydd da o'r Bwncath bob tro y dewch yma am dro bron. Mae mainc goffa tua chanol terfyn gogleddol y coed yn cynnig golygfeydd gwych o Drwyn Whiteford, cors halen Gogledd Gŵyr ac Aber Porth Tywyn. Gwelir y Crëyr Bach yma yn aml iawn, yn pigo ar y gors, ac mae'r golygfeydd o'r adar gwyllt sy'n dod yma dros y gaeaf ac yn dod i mewn i nythu ar lanw uchel yn odidog.

Hambury wood 1 3/7/06 2:20:54 pm



Nodau Rheoli: Adfer y coetir o ynn drwy roi lle i adfywiad naturiol y coed brodorol, a dal ati i docio ac atal anifeiliaid rhag pori yma, drwy gynnal a chadw ffensys y terfynau.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Mehefin	Blodau'r coetir
Ebrill - Gorffennaf	Adar yn magu
Medi - Tachwedd	Ffwng
Tachwedd - Chwefror	Adar gwyllt yn nythu ar lanw uchel ar y gors halen

Hambury wood 2 3/7/06 2:20:56 pm